

Eitem: 12

Teitl: Cofrestr Risg Corfforaethol Drafft

Gweithredu / Action required	Cymeradwyaeth
Amseru / Timing	Brys
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y gofrestr risg gorfforaethol sy'n cynnwys ein risgiau strategol.
Risg / Risk	Gallai methu â dal a rheoli ein risgiau strategol arwain at ganlyniadau tymor byr a hirdymor i Llais.
Cyllid / Finance	Amh
Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllun strategol / Strategic plan objective Amcan cynllun 100 diwrnodd / 100 day plan objective	Mae ein cofrestr risg gorfforaethol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio a'r gweithrediaeth bod yr holl risgiau strategol wedi'u nodi a'u rheoli'n effeithiol. Mae'n ffurfio rhan o'n fframwaith llywodraethu a sicrwydd.
Cydraddoldeb / Equality	Amh
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl <input checked="" type="checkbox"/> Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaethau/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/> Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>

Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Mae'r papur hwn wedi'i glirio gan y Prif Weithredwr.
Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions	<p>Datblygwyd y gofrestr risg gorfforaethol gan y Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd mewn partneriaeth â Tîm Arwain. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi craffu ar y gofrestr risg.</p> <p>Roedd y pwyllgor i fod i graffu ar y gofrestr risg gorfforaethol ddrafft terfynol (papur 23-06 (09)a) ar 20 Hydref ond mae'r cyfarfod wedi'i aildrefnu ar gyfer Tachwedd 2023.</p>
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	Ceri Sullivan
Dyddiad / Date	29-09-2023
Cefndir / Background	
<p>Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gytuno ar archwaeth risg y sefydliad, polisi rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd ar yr archwaeth risg a'r polisi rheoli risg cyn i Llais ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2023.</p> <p>Yna cafodd y polisi rheoli risg ei gyfleu i'r holl staff a'i weithredu.</p> <p>Ym mis Ebrill 2023, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (y Pwyllgor) drafft cynnar o'r gofrestr risg gorfforaethol a rhoddodd sylwadau ac awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r gofrestr.</p> <p>Yna rhannwyd fersiynau eraill o'r gofrestr risg gyda'r Pwyllgor a'r Tîm Arwain i gael sylwadau.</p> <p>Rhannwyd y gofrestr risg hefyd gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd yn Llywodraeth Cymru a roddodd sicrwydd ychwanegol ac adborth cadarnhaol.</p> <p>Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n fisol gan Tîm Arwain ac yn chwarterol gan y Pwyllgor.</p>	

Bydd y Bwrdd yn cael diweddariadau chwarterol a fydd yn cynnwys sylwadau a sicrwydd gan y Pwyllgor a Tîm Arwain.

Manylion / Detail

Mae drafft terfynol y gofrestr risg gorfforaethol wedi'i gynnwys gyda phapurau i'w hystyried a'u cymeradwyo — papur 23-06 (10) Atodiad A.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cael cyfle i drafod y risgiau, y rheolaethau risg a'r camau lliniaru pellach sydd eu hangen. Mae rhai newidiadau cyflwyniadol wedi'u gwneud i'r gofrestr risg ers hynny ac ychwanegwyd colofn ychwanegol (yn unol â chais y Pwyllgor) yn amlinellu'r mathau o sicrwydd a dderbynnir yn erbyn pob un o'r risgiau.

Gweithredu:

Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y gofrestr risg gorfforaethol.

Y camau nesaf:

Mae'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithio gyda'r arweinwyr perthnasol i roi cyngor a chymorth ar ddatblygu cofrestrau risg gweithredol.

Ar ôl i'r cofrestrau risg gweithredol gael eu cwblhau, bydd y risgiau mwyaf arwyddocaol o fewn y cofrestrau hynny yn cael eu cynyddu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg lle bo angen.